19.01.2023

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Diwrnod priodas llawn chwerthin ac emosiwn

Fel arfer yn y gyfres boblogaidd ar S4C **Priodas Pum Mil**, mae'r pâr hapus eisoes wedi cytuno i briodi - ac mae gwaith y cyflwynwyr Emma Walford a Trystan Ellis yn dechrau trwy gael criw o deulu a ffrindiau at ei gilydd i drefnu'r cyfan.

Ond mae'r rhifyn nesaf o Priodas Pum Mil ar nos Sul 29 Ionawr ar S4C yn dechrau mewn ffordd hollol wahanol gyda sypreis mewn hofrennydd, wrth i Tom Evans ofyn i'w gariad Charlotte Williams a wnaiff hi ei briodi.

Mae'r ddau yn byw yn Rhydyclafdy ger Pwllheli, gyda eu mab blwydd oed, Twm, ac yn dathlu pen-blwydd Charlotte gyda hediad dros dir fferm teulu Tom.

Ond mae 'na un sypreis bach ychwanegol unwaith i'r hofrennydd lanio - tybed a fyddai'r ddau yn fodlon priodi ar Priodas Pum Mil?!

Wel 'ie' brwdfrydig iawn yw'r ateb i'r ddau gwestiwn - a dyma Emma a Trystan, a chriw o deulu a ffrindiau'r cwpwl hapus, yn dechrau paratoi ar gyfer dathliad go arbennig!

Felly ar ôl i Tom ofyn i Charlotte ei briodi mewn ffordd mor rhamantus - beth fyddai'r cwpwl yn hoffi ar gyfer eu diwrnod mawr?

"Se ni yn licio priodi mewn eglwys neu gapel," meddai Charlotte. "Se ni licio neud o yn Eglwys Llanengan lle wnaethon ni fedyddio Twm. Ac wedyn se ni'n licio ein parti ni yng Nghilan."

Cilan yw fferm deuluol Tom ac mae o'n cytuno'n llwyr gyda Charlotte: "Sdim ots gen i beth sy'n digwydd - yr unig beth hoffwn i yw cael y parti yng Nghilan."

Felly Cilan amdani! Mae Charlotte yn awyddus i gael 'top table' ond mae hi hefyd eisiau gofod llai ffurfiol er mwyn i bobl gymdeithasu, dawnsio a mwynhau'r diwrnod.

Mae Trystan eisiau gwybod mwy am ddiddordebau Tom a Charlotte er mwyn plethu'r rhain i'r cynlluniau.

"Dwi'n licio chwarae bingo, dwi'n lyfio mynd i'r bingo!," meddai Charlotte. A beth am Tom? "Dwi'n mwynhau pysgota - ond dwi heb fynd ers tipyn, ers cael Twm. Dwi isho Escort Mk 2 - ceir yw un o fy mhrif ddiddordebau i."

Felly tybed a all Trystan ac Emma blethu bingo, pysgota ac Escort Mk 2 mewn i ddiwrnod mawr Charlotte a Tom? Gyda help gan deulu a ffrindiau'r ddau, ac ambell i gwmni lleol a chysylltiadau eang Claire, mam Charlotte mae unrhyw beth yn bosib.
Mae llawer o waith caled o flaen Trystan, Emma a'r criw i drawsnewid beudy enfawr fferm Cilan i leoliad sy'n addas i briodas - a bydd yn rhaid dod o hyd i gartref newydd dros dro i Charlie y tarw!

Ar ôl y sgwrs gyntaf gyda Trystan ac Emma, dyw Tom a Charlotte ddim yn rhan o’r trefniadau, felly mae diwrnod eu priodas yn sypreis iddyn nhw - ond a fydd diwrnod y briodas yn eu plesio?

Mae croeso i bawb ymuno â’r hwyl wrth wylio **Priodas Pum Mil** ar S4C nos Sul, 29 Ionawr am 8.00.

**Priodas Pum Mil**
**Nos Sul 29 Ionawr 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

19.01.2023

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# A wedding day full of tears of laughter and joy

In the popular S4C series **Priodas Pum Mil**, the happy couple have usually already agreed to get married – and the work of presenters Emma Walford and Trystan Ellis-Morris begins by getting a group of family and friends together to organise the big day.

But the next episode of Priodas Pum Mil (£5,000 Wedding) on Sunday, 29 January, begins in a completely different way with a big surprise in a helicopter as Tom Evans asks his girlfriend Charlotte Williams to marry him!

The couple, who live in Rhydyclafdy near Pwllheli, with their year-old son Twm, were celebrating Charlotte's birthday with a flight over Tom's family farm.

But there is one more surprise to come as the helicopter lands – would the two be willing to get married on Priodas Pum Mil?

Well, it was an enthusiastic 'yes' to both questions – so Trystan and Emma, along with a gang of the happy couple's family and friends, get to work to prepare for a very special event!

So, after Tom asked Charlotte to marry him in such a romantic way – what would the two like for their big day?

"I would like to marry in a church or chapel," said Charlotte. "I would like to do it in Llanengan Church where Twm was baptised. And then I'd like our party to be in Cilan."

Cilan is Tom's family farm and he completely agrees with Charlotte. "I don't mind what happens – the only thing I really want is to have the party in Cilan."

So Cilan it is! Charlotte is keen to have a top table but she also wants a more informal area where people can socialise, dance and enjoy the day."

Trystan wants to know more about Charlotte and Tom's interests in order to bring these into the plans.

"I like playing bingo – I love going to the bingo," said Charlotte. And what about Tom? "I enjoy fishing – but I haven't been for a while, not since Twm was born. Cars are one of my main interests, so I'd really like an Escort Mk2," said Tom.

So can Trystan and Emma combine bingo, fishing and an Escort Mk2 into Charlotte and Tom's big day? With the help of the couple's family and friends, some local businesses and Charlotte's mum Claire's long list of contacts, anything is possible.

There’s a lot of hard work in front of Trystan, Emma and the gang to transform the massive cowshed at Cilan into a location that is suitable for a wedding – and they will have to find a new home for Charlie the bull!

After the initial chat with Trystan and Emma, Charlotte and Tom don’t play any part in the arrangements, so the day is a complete surprise for them – so will they be pleased with how their wedding day has turned out?

Everybody is welcome to join in the fun by watching Priodas Pum Mil on S4C Sunday, 29 January at 8.00pm.

**Priodas Pum Mil**
**Sunday 29 January 8.00pm, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**